OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 270 (Cy.49)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau'r Cwricwlwm Lleol mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn cymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("Deddf 2000") (fel y'u mewnosodwyd gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009) at sefydliadau yn sector addysg uwch Cymru. Mae'r darpariaethau o Ddeddf 2000 sy'n cael eu cymhwyso (adrannau 33A i 33L, 33N a 33O) yn ymwneud â'r cwricwlwm lleol i bersonau 16 i 19 oed.

Mae'r Rheoliadau'n sicrhau bod personau 16 i 19 oed sy'n ymgymryd ag addysg uwchradd neu addysg bellach mewn sefydliad addysg uwch yn elwa ar yr un hawl i ddewis a dilyn cyrsiau astudio mewn cwricwlwm lleol â'r personau hynny sy'n ymgymryd â'u haddysg mewn ysgolion neu sefydliadau addysg bellach. Mae'r sefydliadau addysg uwch bellach o dan yr un dyletswyddau o ran darparu'r cwricwlwm lleol ag ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 270 (W.49)

# EDUCATION, WALES

## The Local Curriculum in Higher Education Institutions (Wales) Regulations 2011

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations apply certain provisions of the Learning and Skills Act 2000 ("the 2000 Act") (as inserted by the Learning and Skills (Wales) Measure 2009) to institutions within the higher education sector in Wales. The provisions of the 2000 Act that are applied (sections 33A to 33L, 33N and 33O) are concerned with the local curriculum for persons aged 16 to 19.

The Regulations ensure that persons aged 16 to 19 undertaking secondary education or further education in a higher education institution benefit from the same entitlement to choose and follow courses of study within a local curriculum as those persons undertaking their education in schools or further education institutions. The higher education institutions are now under the same duties in relation to the provision of the local curriculum as schools and further education institutions.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 270 (Cy.49)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau'r Cwricwlwm Lleol mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Chwefror 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *9 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym* | *4 Mawrth 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 33Q o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cwricwlwm Lleol mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 4 Mawrth 2011.

### Dehongli

**2**. Yn y Rheoliadau hyn–

mae i "corfforaeth addysg uwch" yr ystyr a roddir i "*higher education corporation*" gan adran 90(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**2**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol i Fyfyrwyr 16 i 18 oed) (Cymru) 2011(**3**);

ystyr "sefydliad AU" ("*HE institution*") yw sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch.

(**1**) 2000 p.21. Mewnosodwyd adran 33Q gan adran 38 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1).

(**2**) 1992 p.13.

(**3**) O.S. 2011/107 (Cy. 26).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 270 (W.49)

# EDUCATION, WALES

## The Local Curriculum in Higher Education Institutions (Wales) Regulations 2011

| | |
|---|---|
| *Made* | *8 February 2011* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *9 February 2011* |
| *Coming into force* | *4 March 2011* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 33Q of the Learning and Skills Act 2000(**1**).

### Title and commencement

**1**. The title of these Regulations is the Local Curriculum in Higher Education Institutions (Wales) Regulations 2011 and they come into force on 4 March 2011.

### Interpretation

**2**. In these Regulations–

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Learning and Skills Act 2000;

"higher education corporation" ("*corfforaeth addysg uwch*") has the meaning given by section 90(1) of the Further and Higher Education Act 1992(**2**);

"HE institution" ("*sefydliad AU*") means an institution conducted by a higher education corporation;

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Education (Local Curriculum for Students Aged 16 to 18) (Wales) Regulations 2011(**3**).

(**1**) 2000 c.21. Section 33Q was inserted by section 38 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1).

(**2**) 1992 c.13.

(**3**) S.I. 2011/107 (W. 26 ).

**Cymhwyso cwricwlwm lleol sefydliadau AU**

**3**.–(1) Pan fo sefydliad AU yng Nghymru yn darparu addysg uwchradd neu addysg bellach ar gyfer myfyrwyr sydd heb gyrraedd pedair ar bymtheg oed, mae adrannau 33A i 33L, 33N a 33O o Ddeddf 2000(**1**) a'r Rheoliadau yn gymwys o ran y sefydliad AU hwnnw gyda'r addasiadau a nodir yn y paragraffau a ganlyn.

(2) Mae'r cyfeiriadau at "sefydliad", "institution" neu "sefydliadau", "institutions" yn adrannau 33C(2), 33D(1), (2) a (4), 33E(4), 33F, 33G(1) a (3), 33H, 33I(1) a (3), 33J(1), 33K(5) a (6) a 33L o Ddeddf 2000 ac yn y Rheoliadau yn effeithiol fel petaent yn cynnwys cyfeiriadau at sefydliad AU sy'n darparu addysg uwchradd neu addysg bellach ar gyfer myfyrwyr sydd heb gyrraedd pedair ar bymtheg oed.

(3) Mae'r cyfeiriad at "relevant students" yn adran 33C(2) o Ddeddf 2000 yn effeithiol, o ran sefydliad AU, fel petai'n gyfeiriad at fyfyrwyr y mae'r sefydliad AU yn sefydliad perthnasol iddynt (yn unol â phenderfyniad o dan adran 33D o Ddeddf 2000).

(4) Mae'r cyfeiriadau at "governing body" yn adrannau 33D(2), 33F(1), 33G(3), (4), 33H, 33I(3), (4), 33J(1)(c), 33K(4)(c) a (5)(b) a 33L o Ddeddf 2000 yn effeithiol, o ran sefydliad AU, fel petaent yn cynnwys cyfeiriadau at y bwrdd, y pwyllgor neu'r personau eraill sy'n gyfrifol am reoli'r gyfadran, yr adran neu'r coleg yn y sefydliad AU sef cyfadran, adran neu goleg sy'n darparu'r addysg uwchradd neu'r addysg bellach ar gyfer myfyrwyr sydd heb gyrraedd pedair ar bymtheg oed.

(5) Mae adran 33K(4) o Ddeddf 2000 yn effeithiol fel petai'r canlynol wedi'i ychwanegu ar ddiwedd yr is-adran honno–

"; and

(d) the board, committee or other persons responsible for the management of a faculty, department or college of an HE institution, which faculty, department or college delivers the secondary education or further education for students who have not attained the age of nineteen provided by the institution and which faculty, department or college is situated within the area of the authority.".

(6) Mae'r cyfeiriadau at "pennaeth sefydliad" neu "principal" yn adrannau 33F, 33G(1), (4), 33I(1), (4) a 33J(1) o Ddeddf 2000 ac yn y Rheoliadau yn effeithiol, o ran sefydliad AU, fel petaent yn gyfeiriadau at bennaeth y gyfadran, yr adran neu'r coleg yn y sefydliad AU sef cyfadran, adran neu goleg sy'n

(**1**) Mewnosodwyd adrannau 33A i 33L, 33N a 33O o Ddeddf 2000 gan adrannau 22 i 33, 35 a 36 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

**Application of local curriculum of HE institutions**

**3**.–(1) Where an HE institution in Wales provides secondary education or further education for students who have not attained the age of nineteen, sections 33A to 33L, 33N and 33O of the 2000 Act(**1**) and the Regulations apply in relation to that HE institution with the modifications set out in the following paragraphs.

(2) The references to "institution" or "institutions" in sections 33C(2), 33D(1), (2) and (4), 33E(4), 33F, 33G(1) and (3), 33H, 33I(1) and (3), 33J(1), 33K(5) and (6) and 33L of the 2000 Act and in the Regulations have effect as though they included references to an HE institution providing secondary education or further education for students who have not attained the age of nineteen.

(3) The reference to "relevant students" in section 33C(2) of the 2000 Act has effect, in relation to an HE institution, as though it were a reference to students for whom the HE institution is their relevant institution (in accordance with a determination under section 33D of the 2000 Act).

(4) The references to "governing body" in sections 33D(2), 33F(1), 33G(3), (4), 33H, 33I(3), (4), 33J(1)(c), 33K(4)(c) and (5)(b) and 33L of the 2000 Act have effect, in relation to an HE institution, as though they included references to the board, committee or other persons responsible for the management of the faculty, department or college of the HE institution which faculty, department or college delivers the secondary education or further education for students who have not attained the age of nineteen.

(5) Section 33K(4) of the 2000 Act has effect as though there were added at the end of that sub-section, the following–

"; and

(d) the board, committee or other persons responsible for the management of a faculty, department or college of an HE institution, which faculty, department or college delivers the secondary education or further education for students who have not attained the age of nineteen provided by the institution and which faculty, department or college is situated within the area of the authority.".

(6) The references to "principal" in sections 33F, 33G(1), (4), 33I(1), (4) and 33J(1) of the 2000 Act and in the Regulations have effect, in relation to an HE institution, as though they were references to the head of the faculty, department or college of the HE institution which faculty, department or college is

(**1**) Sections 33A to 33L, 33N and 33O of the 2000 Act were inserted by sections 22 to 33, 35 and 36 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009.

gyfrifol am ddarparu'r addysg uwchradd neu'r addysg bellach ar gyfer myfyrwyr sydd heb gyrraedd pedair ar bymtheg oed.

responsible for delivering the secondary education or the further education for students who have not attained the age of nineteen.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

8 Chwefror 2011

Minister for Children, Education and Lifelong Learning, one of the Welsh Ministers

8 February 2011

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W838/02/11 ON